ATODLEN 2 — Erthygl 2(c)

## ARBEDION

### Landlordiad absennol — tai lesddaliad

**1.** Ni chaiff y diwygiadau a wnaed gan adrannau 148 a 149 effaith mewn perthynas â chais am ryddfreinio a wneir o dan adran 27 o Ddeddf 1967 cyn 31 Mawrth 2004.

### Diffiniad o daliadau gwasanaethau

**2.** Ni fydd y diwygiad a wnaed gan baragraff 7 o Atodlen 9 yn gymwys i gostau a dynnir cyn 31 Mawrth 2004 mewn cysylltiad â materion y codir tâl gwasanaethau ar eu cyfer.

### Ystyr "management" yn adran 24 o Ddeddf 1987

**3.** Ni fydd y diwygiad a wnaed gan baragraff 8 o Atodlen 9 yn gymwys i gais a wneir o dan adran 24 o Ddeddf 1987 cyn 31 Mawrth 2004.

### Yr hawl i gaffael buddiant y landlord

**4.** Ni fydd y diwygiad a wnaed gan baragraff 9 o Atodlen 9 a'r diddymiad yn adran 29 o Ddeddf 1987 yn gymwys i gais a wneir o dan adran 29 o'r Ddeddf honno cyn 31 Mawrth 2004.

### Hawl tenant i gael archwiliad rheoli

**5.** Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan baragraff 10 o Atodlen 9 yn gymwys i gais a wneir o dan adran 80 o Ddeddf 1993 cyn 31 Mawrth 2004.

### Rhwymedigaeth i dalu taliadau gwasanaethau

**6.** Ni fydd effaith i'r diwygiad a wnaed gan adran 155 a diddymiadau adran 19(2A) i (3) o Deddf 1985 ac o adran 83(1) o Ddeddf 1996 mewn perthynas ag —

(a) unrhyw gais a wneir i TPL o dan adran 19(2A) neu (2B) o Deddf 1985; neu

(b) unrhyw achos sy'n ymwneud â thaliad gwasanaethau a drosglwyddir i TPL gan lys sirol,

cyn 31 Mawrth 2004.

### Yswiriant

**7.** Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan baragraffau 8 i 13 o Atodlen 10 a'r diddymiadau canlyniadol yn yr Atodlen i Deddf 1985 yn gymwys i gais a wneir o dan yr Atodlen honno cyn 31 Mawrth 2004.

### Taliadau gweinyddol: rhesymoldeb, galwadau ac atebolrwydd i dalu

**8.** Ni fydd paragraffau 2 i 5 o Atodlen 11 yn gymwys i dâl gweinyddol a oedd yn daladwy cyn 31 Mawrth 2004.

### Taliadau gweinyddol: penodi rheolwr

**9.** Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan baragraff 8 o Atodlen 11 yn gymwys i gais a wneir o dan adran 24 o Ddeddf 1987 cyn 31 Mawrth 2004.

### Taliadau o dan gynlluniau rheoli ystadau

**10.** Ni fydd Adran 159 yn gymwys i daliad o dan gynllun rheoli ystad a oedd yn daladwy cyn 31 Mawrth 2004.

### Amrywio prydlesi: trosglwyddo awdurdodaeth

**11.** Ni chaiff y diwygiadau a wnaed gan adran 163 effaith mewn perthynas â chais a wneir i'r llys o dan Ran 4 o Ddeddf 1897 cyn 31 Mawrth 2004.

### Tir y Goron: amrywio prydlesi

**12.** Ni fydd amrywiad unrhyw denantiaeth a wneir gan orchymyn neu yn unol â gorchymyn a wnaed cyn 31 Mawrth 2004 o dan adran 38 o Ddeddf 1987 yn cael ei drin fel un sy'n rhwymo'r Goron, fel rhagflaenydd yn y teitl o dan y denantiaeth, yn rhinwedd adran 39(1) o'r Ddeddf honno.

### Tribiwnlysoedd prisio prydlesi

**13.** Ni fydd effaith i Adran 175, y diwygiadau a wnaed gan adran 176 ac Atodlen 13 a'r diddymiadau yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn mewn perthynas ag —

(a) unrhyw gais a wneir i TPL; neu

(b) unrhyw achosion a drosglwyddir i TPL gan gyngor sir,

cyn 31 Mawrth 2004.